

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU POBL
SWYDD-DDISGRIFIAD

Cyfarwyddiaeth	Gwasanaethau Pobl
Adran	Adnoddau Dynol
Swydd	Uwch Ymgynghorydd Iechyd Ffitrwydd
Rhif y Swydd	502422
Gradd	Gradd 10
Lleoliad	Uned Iechyd Galwedigaethol (UIG) Pont-y-clun
Yn gyfrifol i'r	Rheolwr AD – Rheoli Presenoldeb ac Iechyd Galwedigaethol
Yn gyfrifol am	Uwch Ymgynghorydd Iechyd a Ffitrwydd

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD

I ddarparu gwasanaeth iechyd a ffitrwydd safonol a phroffesiynol i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'i aelodau presennol, blaenorol ac aelodau'r dyfodol, mewn modd ymrwymedig a hyblyg.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

1. I weithio'n agos â Rheoli Presenoldeb, Rheolwyr Llinell a gweithwyr i sicrhau darpariaeth gwasanaeth Iechyd a Ffitrwydd effeithiol.
2. I weithio'n agos â Meddygon, Nyrsys, y Tîm Gweinyddol a darparwyr allanol gwasanaethau Iechyd a Ffitrwydd i sicrhau darpariaeth gwasanaeth Iechyd a Ffitrwydd effeithiol ac effeithlon.
3. I reoli'r Cynghorydd Iechyd a Ffitrwydd o dydd i ddydd drwy gydlynw a chyfarwyddo gwaith a monitro safonau ac allbynnau. I gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:
 - Cynnal cyfarfodydd rheolaidd
 - Osod safonau gwaith a ddogfennwyd a monitro cydymffurfedd â'r safonau hynny
 - Ddyrannu a blaenoriaethu gwaith

- Sicrhau fod trefniadau mewn lle i ddarparu gwasanaeth di-dor i'w ddarparu i gwsmeriaid
 - Adnabod a mynd i'r afael â gofynion hyfforddi lle bo'n briodol
 - Cymeradwyo a monitro ceisiadau am wyliau
 - Weithredu fel mentor a man cyswllt cyntaf.
4. I hyrwyddo datblygiad ffitrwydd corfforol o fewn y Gwasanaeth Tân Achub a chynghori rheolwyr a gweithwyr wrth ddewis am ddewis a defnydd gorau gwahanol brotocolau ffitrwydd amrywiol.
 5. I gynorthwyo mewn recriwtio staff y system ddyletswydd amser llawn a'r system ddyletswydd wrth gefn mewn perthynas â chymhwyso'r prawf ffitrwydd corfforol yn unol â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ogystal â chynghori hyfforddeion am ofynion ffitrwydd.
 6. I hyrwyddo ymwybyddiaeth iechyd a diwylliant ffitrwydd corfforol ar draws y Gwasanaeth Tân ac Achub drwy amryw o fentrau sydd ar gael gan gynnwys cymdeithasau lles a chwaraeon a chynhyrchu adroddiadau/dogfennaeth pan fo'n ofynnol.
 7. I gysylltu â Meddygon IG a Nyrsys IG parthed ailsefydlu gweithwyr yn dilyn anaf neu wrth ddychwelyd i ffitrwydd gweithredol.
 8. I sicrhau bod cyfarpar yn cael ei wirio'n rheolaidd, cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a gofynion diogelwch a bod gweithwyr yn gymwys i'w defnyddio.
 9. I gyfranogi mewn cyfarfodydd, fel bo'n briodol, ag Uwch Reolwyr i'w diweddarau parthed datblygiadau o ran polisi a gweithdrefnau lechyd a Ffitrwydd.
 10. I gysylltu â chyrrff ac asiantaethau allanol ac adrannau mewnol lle bo'r angen.
 11. I gynorthwyo ag adolygu cyfleoedd i wella perfformiad y Tîm Iechyd a Ffitrwydd yn barhaus a datblygu gwell gweithdrefnau adrodd, eithafu darpariaeth effeithiol ac effeithlon gwasanaethau yn y modd mwyaf cost effeithiol.
 12. I chwilio'n barhaus i wella systemau sydd eisioes ar waith i ddyrchafu a lliflinio prosesau ymhellach a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.
 13. I gynorthwyo â chyflawni gweithredoedd y Tîm Adnoddau Dynol o fewn Cynlluniau Cyfarwyddiaeth ac Adran.
 14. I gynorthwyo wrth ddatblygu, cyd-lynu, monitro ac adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â lechyd a Ffitrwydd pan fo'n ofynnol.
 15. I gynorthwyo â datblygu a chynnal dangosyddion rheoli perfformiad cadarn mewn perthynas ag lechyd a Ffitrwydd a chymryd camau yn unol â'r dangosyddion hyn pan fydd materion yn codi.

16. I gynorthwyo â datblygu a chynnal strategaeth TGCh grymus a gweithredol sy'n eithafu'r defnydd o dechnoleg i ddarparu gwasanaeth adnoddau dynol trafodol a hunan-weiniol mewn perthynas â lechyd a Ffitrwydd.
17. I hyrwyddo materion llesiant yn weithredol lle bo'n briodol.
18. I gynnal dealltwriaeth o newidiadau i ddeddfwriaeth gyflogaeth a'r effeithiau ar yr Adran Adnoddau Dynol.
19. I gynnal cyfrinachedd ar bob adeg o ran amgyffred deddfwriaeth Diogelu Data.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gaiff ei gyflwyno o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Lechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â phobl eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ar bob adeg, megis bod:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

